



CYNGHRAIR HENOED CYMRU

Profiadau pobl hŷn yng Nghymru ar ôl cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Dogfen Gryno

Medi 2017

Cyflwyniad

Ym mis Mai 2017, fwy na blwyddyn ar ôl cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, lansiodd Cynghair Henoed Cymru arolwg 'Eich Barn am y Ddeddf: Cyfle i Bobl Hŷn ddweud eu dweud', ynghyd ag arolwg 'Eich Barn am y Ddeddf: Cyfle i Weithwyr Proffesiynol ddweud eu dweud' sydd wedi'i dargedu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn.

Nod yr arolygon hyn oedd cofnodi barn, profiadau a llais pobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ar y modd y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru wedi effeithio ar fywydau pobl hŷn a'u profiadau o ran elwa ar wasanaethau cymorth a gofal. Ei nod hefyd yw cofnodi barn gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl hŷn y mae angen gofal a chymorth arnynt ar ôl rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru ar waith.

Cydnabyddir bod canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchu barn unigolion ar adeg benodol. Nodwn hefyd fod yr ymchwil yn gyfyngedig i'r rheiny sy'n gallu ymateb i arolwg manwl a ddosbarthwyd ar-lein yn bennaf, felly nid yw'r canlyniadau yn adlewyrchu safbwyntiau'r unigolion hynny y mae sefydliadau a gwasanaethau'n eu cael yn anos eu cyrraedd o reidrwydd.

Ein Canfyddiadau

Mae Cynghair Henoed Cymru yn pryderu am y darlun a amlygwyd gan yr arolygon hyn. Maent yn dangos bod cynnydd a chanlyniadau cadarnhaol wedi bod o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth, er enghraifft, o ran grymuso pobl hŷn ac anogaeth iddynt adnabod eu cryfderau eu hunain. Fodd bynnag, ni ofynnir i oddeutu hanner y bobl hŷn beth sy'n bwysig iddyn nhw fel rhan o'r broses asesu gwasanaethau cymdeithasol ac ni chaiff anghenion niferoedd mawr o bobl hŷn eu hadolygu.

O ran eirioli, roedd 48% o bobl hŷn a oedd wedi cael asesiad yn teimlo nad oeddent wedi cael cynnig cymorth, ac roedd 9% wedi cael cynnig cymorth ond nid oedd unrhyw unigolyn na gweithiwr proffesiynol addas ar gael.

Er ein bod wedi cydnabod ei bod yn cymryd amser i newidiadau mor arwyddocaol â'r rheiny a ysgogwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru gael eu hymgorffori a bod yn gwbl weithredol, mae'n destun pryder mawr fod y bobl hŷn a ymatebodd i'r cwestiwn am natur yr her yn credu bod hyn wedi digwydd er gwaeth.

Pwysleisir y pwynt hwn gan y bylchau a amlygir yn y gwasanaethau priodol sydd ar gael a'r diffyg gwybodaeth a chynghor cyson.



Mae angen newid ledled Cymru fel bod pobl hŷn yn cael y gofal sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen, gan adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol rydym wedi'i weld mewn rhai meysydd. Mae Cynghrair Henoed Cymru yn cefnogi newid diwylliant sy'n sicrhau bod pobl hŷn yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir a sefydliadau o bob sector yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gofal a chymorth priodol ar gael.

Ceri Jackson
Cadeirydd, Cynghrair Henoed Cymru

Prosesau Asesu

Yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gwnaed newidiadau sylweddol i broses asesu gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiad o unrhyw un sy'n byw yn eu hardal y gallai fod angen gwasanaethau gofal arnynt, wedi iddynt ddod yn ymwybodol o'r angen hwn. Rhaid i'r asesiad hwn ystyried pob agwedd ar anghenion.

Mae ymatebion i'r arolwg yn dangos, er bod y ddeddfwriaeth wedi arwain at newidiadau yn y broses asesu, bod angen parhaus i dyfu ac ymgorffori'r ymarfer hwn o hyd er mwyn sicrhau profiad cyson. Canfuwyd bod ychydig dros hanner y bobl hŷn wedi dweud y gofynnwyd iddynt 'beth sy'n bwysig' yn ystod asesiad – pwynt o bwysigrwydd allweddol yn y Ddeddf – ac roedd mwyafrif ohonynt yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau eu hunain 'yn llawn' neu 'ychydig'. Roedd safbwyntiau gweithwyr proffesiynol yn fwy tyngedfennol, fodd bynnag, nid oedd dros hanner ohonynt yn credu bod sgysrsiau 'beth sy'n bwysig' yn cael eu cynnal yn effeithiol gyda phobl hŷn.



At ei gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod angen gweithredu pellach i sicrhau cysondeb mewn profiadau.

Dangosodd ymatebwyr gynnydd cadarnhaol tuag at sicrhau bod pobl hŷn yn cael cyfle i adnabod eu cryfderau a'u rhwydweithiau cymorth eu hunain hefyd: roedd hanner y gweithwyr proffesiynol yn credu bod pobl hŷn yn cael eu hannog 'yn llawn' neu 'ychydig' i wneud hyn, ac roedd bron i 70% o bobl hŷn yn cytuno.

Mae'n ymddangos bod y drefn o gyfeirio at wasanaethau cymorth ar gyfer llesiant yn anghyson. Gallai hyn olygu bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan wasanaethau

cymdeithasol, felly nid oes angen cyfeirio, ond mae perygl fod pobl hŷn yn colli cyfleoedd am gymorth. Roedd rhaniad cyfartal bron rhwng pobl hŷn a oedd wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal a chymorth a fyddai'n cefnogi eu llesiant, a'r rheiny nad oeddent wedi cael eu cyfeirio. Roedd y farn broffesiynol yn gymysg, a'r ganran fwyaf yn credu bod pobl hŷn yn cael eu cyfeirio ond nad ydynt bob amser yn gallu elwa ar wasanaethau cymorth. Roedd cyfanswm o 30% o weithwyr proffesiynol yn credu bod pobl hŷn yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a oedd bellach wedi dod i ben, neu nid oeddent wedi cael eu cyfeirio o gwbl.

Yn olaf, dangosodd ymatebwyr fod diffyg cysondeb o ran monitro a gwerthuso 'cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'. Roedd 'cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' traean o bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond dywedodd bron i hanner ohonynt nad oedd eu cynllun wedi cael ei adolygu 'rhyw lawer' neu 'nid oedd wedi cael ei adolygu o gwbl'. Roedd barn broffesiynol am berfformiad yn y mater hwn yn destun hyd yn oed mwy o bryder, ac nid oedd unrhyw ymatebwyr yn credu bod cynlluniau gofal pobl hŷn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y mwyafrif ohonynt nad oedd monitro a gwerthuso yn digwydd 'rhyw lawer' neu 'nid oedd yn digwydd o gwbl'.

Darparu Gwasanaethau

Er mai cyfran fach yn unig o ymatebwyr hŷn a roddodd sylwadau ar ddarparu gwasanaethau, roedd y rheiny a ddywedodd eu bod wedi gweld newid mewn gwasanaethau o ganlyniad i'r Ddeddf yn credu bod y newidiadau hyn wedi cael effaith negyddol ar fywydau pobl hŷn. Dangosodd pobl hŷn gynnydd cyffredinol hefyd yn lefelau'r anfodlonrwydd yn safon y gwasanaethau yr oeddent wedi eu derbyn ar ôl 6 Ebrill 2016.

Roedd barn broffesiynol ar ddarparu gwasanaethau yn fwy rhanedig: roedd rhaniad cyfartal o ran y rheiny a oedd, a'r rheiny nad oeddent wedi sylwi ar newid mewn gwasanaethau a oedd wedi effeithio'n uniongyrchol ar bobl hŷn. Roedd lefelau cyffredinol anfodlonrwydd â safon y gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn mewn barn broffesiynol wedi cynyddu er mis Ebrill 2016.

Mynediad at wasanaethau

Dangosodd ymatebion, er bod mwyafrif y bobl hŷn a oedd yn cael asesiad o anghenion wedi elwa ar wasanaethau cymorth priodol, nad oedd dros 30% naill ai wedi elwa arnynt, neu dywedon nhw fod gwasanaethau wedi dod i ben, gan nodi bwlch posibl mewn darparu gwasanaeth a pherygl nad yw'r rheiny y mae angen gofal a chymorth arnynt yn elwa ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Hefyd, dywedodd 67% o weithwyr proffesiynol eu bod yn credu bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at wasanaethau, ond nid ydynt bob amser yn bodloni anghenion pobl hŷn. Dywedodd 17% nad ydynt yn credu bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol, ac nid oedd yr un ohonynt yn credu bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion yn llawn.

Gwybodaeth a chyngor

Mae ymatebwyr yn dangos diffyg cyfathrebu effeithiol i sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol o sut bydd y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn effeithio arnynt nhw, aelodau o'u teulu a'u gofawyr, a dywedodd 76% nad ydynt wedi gweld unrhyw wybodaeth gan eu hawdurdod lleol. O'r rheiny a oedd wedi cael gwybodaeth, disgrifiodd 11% y wybodaeth "yn eithaf defnyddiol" a 9% "yn ddefnyddiol". Roedd 31% o weithwyr proffesiynol yn gweld gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan eu hawdurdod lleol i

helpu pobl hŷn i ddeall sut gallai'r newidiadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) effeithio arnyn nhw ac aelodau o'u teulu, "yn eithaf defnyddiol", sydd eto'n awgrymu diffyg cyfathrebu effeithiol â phobl hŷn.

Mae pryderon hefyd ynglŷn â'r gallu i gael mynediad at wybodaeth a chyngor: dywedodd 25% o bobl hŷn nad oedd wedi bod yn hawdd cael mynediad at wybodaeth a chyngor. Cefnogwyd hyn gan 38% o weithwyr proffesiynol a ddywedodd na fu unrhyw newid ers cyflwyno'r Ddeddf, ac 8% a ddywedodd eu bod yn teimlo ei bod yn llai hawdd. Nododd ymatebwyr hefyd fod y drefn o gyfeirio at sefydliadau eraill am gymorth yn gyfyngedig, a dywedodd 44% o bobl hŷn nad oeddent yn cael eu cyfeirio at sefydliadau eraill. Dywedodd 5% eu bod wedi cael eu cyfeirio, ond na wnaeth y cymorth fodloni eu hanghenion, yn eu barn nhw. Mae posibilrwydd fod pobl hŷn yn cael mynediad at wasanaethau cymorth priodol yn rhywle arall, ac felly nid oes angen eu cyfeirio at sefydliadau eraill, ond serch hynny'n canfod nad yw 44% o bobl hŷn yn cael eu cyfeirio gan awdurdodau lleol, sy'n destun pryder.

Roedd barn broffesiynol ar gyfeirio yn gymysg: roedd 23% yn credu y bu newid yn niferoedd y bobl hŷn a gyfeiriwyd at sefydliadau eraill a bod gwasanaethau'n bodloni eu hanghenion ar y cyfan, roedd 23% yn credu y bu newid yn niferoedd y bobl hŷn sy'n cael eu cyfeirio at sefydliadau eraill ac **nad** yw cymorth yn bodloni eu hanghenion, ac roedd 23% yn credu nad oedd unrhyw newid wedi bod yn nifer y bobl hŷn a oedd yn cael eu cyfeirio at sefydliadau am gymorth. Yn ei hanfod, mae'n ymddangos bod diffyg cyfeirio cyson a phriodol.

Eirioli

Roedd barn y gweithwyr proffesiynol a'r bobl hŷn a oedd wedi cael asesiad anghenion neu adolygiad asesu anghenion yn amrywio am gymorth eirioli yn ystod y gwerthusiadau hyn. O'r gweithwyr proffesiynol, roedd rhaniad cyfartal rhwng y rheiny a oedd yn teimlo bod pobl hŷn wedi cael cyfle am gymorth gan unigolyn 'arall' priodol neu eiriolwr proffesiynol, a'r rheiny a oedd yn credu nad oeddent wedi cael cyfle. Roedd 48% o bobl hŷn a oedd wedi cael asesiad yn teimlo nad oeddent wedi cael cynnig cymorth, ac roedd 9% wedi cael cynnig cymorth, ond nid oedd unrhyw unigolyn neu weithiwr proffesiynol addas ar gael. Dim ond 22% o bobl hŷn a ddywedodd fod y cyfle wedi cael ei gynnig a'u bod wedi derbyn (er nad oes unrhyw arwydd p'un ai aelod o'r teulu neu eiriolwr proffesiynol oedd hwn).

O ran eirioli sydd ar gael heblaw mewn asesiad, dywedodd 41% o bobl hŷn, 'oes, yn sicr' fod rhywun a allai siarad ar eu rhan, ac roedd 23% yn credu 'oes, o bosibl'. Fodd bynnag, dywedodd cyfanswm o 36% naill ai 'na, ddim o gwbl' neu 'na, ddim mewn gwirionedd'.

Pan ofynnwyd i weithwyr proffesiynol a fyddai rhywun yn cael ei amlygu a allai siarad ar ran unigolyn hŷn, roeddent yn gogwyddo'n gadarnhaol tuag at 'oes' neu 'oes, o bosibl', a dywedodd 31%, 'na, ddim mewn gwirionedd'.

Cyd-gynhyrchu


Er bod y Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth fewnbwn cryf i ddarparu gwasanaeth, dangosodd ymatebwyr i'r arolwg nad yw hyn yn wir bob amser: dywedodd dros hanner y bobl hŷn 'na, ddim mewn gwirionedd' neu 'na, ddim o gwbl' pan ofynnwyd a oeddent yn cael dweud eu dweud ynglŷn â'u gwasanaethau cymorth, a dim ond 10% a ddywedodd "ydw, yn llawn". Hefyd, pan ofynnwyd p'un a yw pobl hŷn wedi cael eu grymuso i gael dweud eu dweud ynglŷn â'r cymorth a'r gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn, nid oedd unrhyw weithwyr proffesiynol yn credu bod pobl hŷn yn cael dweud eu

dweud 'yn llawn', ac ymatebodd 58% trwy ddweud 'na, ddim mewn gwirionedd' neu 'na, ddim o gwbl'.



Er bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn trafod yn glir bwysigrwydd cynnwys dinasyddion mewn cynllunio gwasanaethau, mae ymatebion i'r arolwg yn dangos diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut i gyfrannu at gynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Er gwaethaf hyn, y farn gyffredinol a fynegwyd gan weithwyr proffesiynol yw nad yw pobl hŷn yn cael eu grymuso mewn gwirionedd i gael dweud eu dweud ynglŷn â'r cymorth a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn, fel y dangosir uchod.

Roedd mwyafrif y bobl hŷn yn teimlo nad oeddent yn cael dweud eu dweud ynglŷn â chynllunio'r gwasanaethau a gyflwynir yn eu hardal, a dywedodd cyfanswm o 67% "na, ddim mewn gwirionedd" neu "na, ddim o gwbl". Cefnogwyd hyn gan ymatebion gweithwyr proffesiynol, sy'n dangos nad oedd unrhyw un yn credu y byddai pobl hŷn yn gallu cael dweud eu dweud yn llawn. Dim ond 7% o bobl hŷn a ddywedodd eu bod yn teimlo y gallant gael dweud eu dweud yn llawn am gynllunio'r gwasanaethau a gyflwynir yn eu hardal leol.



Dywedodd 42% o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd nad yw pobl hŷn yn gwybod 'mewn gwirionedd' neu 'o gwbl' sut i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau a gyflwynir yn eu hardal leol. Mae'n amlwg fod hyn yn broblem. Nododd un ymatebwr: "Prin y byddai unrhyw un o'r cleieintiaid rydym ni wedi eu gweld yn gwybod sut i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol. Maen nhw'n tueddu i fod yn eithaf bregus, ar wahân ac ansicr ynglŷn â'r hyn sydd ar gael iddyn nhw, heb sôn am ddylanwadu ar hynny".

Argymhellion

1. Mae profiad pobl hŷn sy'n cael mynediad at ofal a chymorth yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Ebrill 2016 yn anghyson ac amrywiol. I helpu lliniaru'r profiadau hyn, dylid datblygu perthnasoedd strategol i ymgorffori'r trydydd sector yn gyson mewn trafodaethau am iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi ymagweddau integredig at fodloni'r angen ar draws sectorau.

2. Mae angen i'r trydydd sector, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn gyson ac yn effeithiol i rannu gwybodaeth, cynllunio a chyd-ddylunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn gyda phobl hŷn sy'n briodol i fodloni eu hanghenion.
3. Ceir cysondeb yn yr ymagwedd a brofir gan bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn asesiadau anghenion ac adolygiadau asesu anghenion. Er bod cynnydd yn cael ei wneud yn y newidiadau a gyflwynwyd gan yr ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sgysiau 'beth sy'n bwysig', mae bylchau'n parhau ym mhrofiad y defnyddiwr. Mae angen i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd i adnabod, a mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyflawni proses asesu gofal sy'n gwbl integredig sydd ar gael yn hawdd i bobl hŷn. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ar y cyd a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.
4. Mae profiad pobl hŷn o ran cael mynediad at wybodaeth a chynghor yn amrywio. Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl hŷn yn deall eu hawliau o ran gofal cymdeithasol.
5. Mae angen rhaglen fonitro a gwerthuso gadarn ac effeithiol i sicrhau bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen i wella llesiant pobl hŷn yng Nghymru.